

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 17eg o Fawrth 2020

Presennol: Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

- 1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Celfyn Furlong, Gordon Owen, William Victor Owen a Beryl Salisbury.
- 2. Datganiad o ddiddordeb:** - Cyng. Gwilym O. Jones eitem 10.1 and 10.2, Cyng. Sharon Parry eitem 10.3.
- 3. Cofnodion cyfarfod 18fed o Chwefror 2020**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

1. Cae Chwarae - GMS Ground Services oedd yr unig i anfon dyfynbris ar gyfer torri gwair roeddent yn cynnig gwneud y gwaith am yr un pris a llynedd. Roedd Môn Grass Cutting yn methu cymryd mwy o waith am eleni a ni chafwyd dyfynbris gan Jamie Cunliffe, Landscape and Garden Services eto. Cytunwyd i ddefnyddio GMS oni bai y derbyniwyd dyfynbris llawer is erbyn diwedd yr wythnos. Roedd Cyng. Dyfed Williams wedi tynnu'r sgrïwiau ymwithiol ar y fainc bicnic ac roedd yr arwyddion newydd wedi cael eu gosod hefyd.

Roedd Mr Trystan Evans wedi cadarnhau y byddai oddeutu £ 2,000 o bunnoedd ar gael fel budd cymunedol o ddatblygiad Treifan. Gan fod y cwmni'n arbenigo mewn cynhyrchu gwrthrychau pren, eu cynnig oedd gwneud darn newydd o offer chwarae neu wneud byrddau picnic. Gallent gynhyrchu rhywbeth newydd eu hunain a fyddai'n llawer mwy costus i'w brynu.

Cytunwyd i ddefnyddio RoSPA i wneud archwiliad blynyddol ar yr offer chwarae.

2. Llwybrau - Roedd angen edrych ar y llwybr o'r Eglwys tuag at Traffwll.
3. Materion Priffyrdd Llanfihangel yn Nhowyn - Roedd y tyllau wrth y bont reilffordd ar Lon Cymyran a'r rhai yr adroddwyd arnynt ar Ffordd Minffordd wedi'u hatgyweirio ond mynegwyd pryder cyffredinol ynghylch cyflwr y ffordd ar hyd Ffordd Minffordd. Byddai'r clerc yn adrodd ar hyn i'r Adran Briffyrdd.
4. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion – dim.

5. Penderfyniadau Cynllunio: dim

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

6. Ceisiadau Cynllunio - dim

7. Gohebiaeth:

1. Pecynnau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Nodwyd
2. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020 - Nodwyd
3. Rhaglen Cynllunio Lle - cais am ymweliad gan gynrychiolwyr Menter Môn i gael ei ohirio
4. Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith - Nodwyd
5. Fforwm Cyswllt - cofnodion y cyfarfod diwethaf - cyfarfod nesaf 30 Ebrill 2020 wedi'i ganslo.
6. Gwasanaeth y Pentecost - Maes Sioe Môn am 10.30yb ar ddydd Sul 31 Mai 2020. – yn debygol o gael ei ganslo.
7. Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon Un Llais Cymru - 26 Mawrth 2020 - wedi'i ganslo.
8. Hyfforddiant - Modiwl 17 - Gwneud Ceisiadau Grant Effeithiol - Mold- 8fed Ebrill 6:30-9:00 - wedi'i ganslo.

8. Materion Ariannol

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr Adroddiad Ariannol hyd at 28 February 2020 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc.

Yn y banc ar 28.2.2020 - Cyfrif Cyfredol £12,441.04, Cyfrif Cadw £3,936.63

9. Taliadau i'w gwneud

Cyflog (Chwefror.)	£237.09	Gwaith cynnal Cae Chwarae	£215
CSYM (Cae Chwarae)	£137		

10. Rhoddion – cytunwyd dalu'r canlynol.

1.	Rhwyd	£150
2.	Neuadd Bentref	£2,500
3.	Môn FM	£100
4.	St. David's Hospice	£150

Llofnod.....Cadeirydd.....

11. Adroddiadau Cyngorwyr

Dywedodd Cyng. Dyfed Williams fod Ysgol y Tywyn yn gorfod cwtsogi ar oriau staff oherwydd cyfyngiadau ariannol.

12. Cyfarfod Nesaf – 21 Ebrill 2020

Roedd yn annhebygol y byddai'r Cyngor yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb eto am beth amser. Roedd Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ail edrych ar y gofynion statudol, yn y cyfamser cytunwyd i fabwysiadu system o awdurdod dirprwyedig fel a ganlyn:

Materion yn codi - Clerc i ddelio â'r rhain mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd / Is-gadeirydd a'r Aelodau Cyfrifol.

Materion cynllunio - i'w gylchredeg a'r clerc i lunio ymateb ar y sylwadau.

Gohebiaeth - i'w chylchredeg gan y clerc

Materion ariannol - cysyniadau banc a chyfrifon i'w cylchredeg

Taliadau - manylion i'w cylchredeg a'u talu gan y clerc.

Llofnod.....Cadeirydd.....